# Yn Gweithio tuag at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:

Cardiff Caerdydd

## Ymrwymiadau Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd 2025-26

Mabwysiadu Arfer Gorau fel Arfer Gyffredin: Ysgogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd. Dyma sut:

| |
|---|
| **Arweinyddiaeth a Diwylliant** Byddwn yn amrywiaethu'r arweinyddiaeth reolaethol ac yn cefnogi datblygiad gyrfa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy: |
| Datblygu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ar draws ein sefydliadau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| Sefydlu cynllun mentora deuffordd i feithrin dysgu ar y cyd, rhannu safbwyntiau amrywiol a hyrwyddo cynhwysiant. |
| Ymrwymo pob arweinydd rheoli o bob rhan o Bartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r rhaglenni arweinyddiaeth trwy fynychu i rannu eu taith arwain. |
| **Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.** Byddwn yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth drwy'r canlynol: |
| Mabwysiadu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol. |
| Sefydlu trefniadau goruchwylio i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol. |
| Adolygu'r Cynnig Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o bryd i'w gilydd i gynnal ei berthnasedd a'i briodoldeb.. |
| **Amrywiaeth y Gweithlu.** Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, drwy'r dulliau canlynol: |
| Cyhoeddi adroddiad Amrywiaeth Blynyddol sy'n nodi proffil gweithlu'r sefydliad. |
| Cynnwys cwestiwn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn cyfweliadau fel rhan o'r broses recriwtio, sy'n berthnasol ac yn gymesur â'r rôl, i brofi cymhwysedd yn ffurfiol yn y maes hwn. |
| Ei gwneud yn ofynnol i holl aelodau'r panel cyfweld gwblhau hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod, neu hyfforddiant priodol tebyg, cyn cymryd rhan yn y broses recriwtio a chyfweliadau. |
| **Darparu gwasanaeth cynhwysol a gwybodus.** Byddwn yn gwrando ac yn deall lleisiau ein cymunedau amrywiol drwy'r canlynol: |
| Cyfrannu at "Adroddiad Llais y Dinesydd" blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, sy'n nodi barn a phrofiadau rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau fel y'u cofnodir mewn unrhyw waith arolygu ac ymgysylltu a wnaed, ac yn cynnwys asesiad o farn ymatebwyr ethnig amrywiol. |
| Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau pan fo angen, i safon uchel, a hyrwyddo arferion cynhwysol. |
| **Gwerth Cymdeithasol.** Byddwn yn ceisio gwneud y mwyaf o effaith y pwrs cyhoeddus yng Nghaerdydd drwy: |
| Archwilio a, lle bo'n bosibl, mabwysiadu, mesurau i gryfhau gwerth cymdeithasol mewn prosesau comisiynu a chaffael. |

## Amdanon ni

Cardiff Caerdydd

National Probation Service

South Wales Fire and Rescue Service / Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

GIG Cymru / NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

C3SC – Cardiff Third Sector Council / Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

GIG Cymru / NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

South Wales Police and Crime Commissioner / Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru